OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 734

# Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

## RHAN 1

Cyffredinol

**Arweiniad y cleifion**

**7.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi arweiniad ysgrifenedig i'r sefydliad neu'r asiantaeth (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "arweiniad y cleifion") ac mae'n rhaid i'r arweiniad gynnwys—

(a) crynodeb o'r datganiad o ddiben;

(b) yr amodau a'r telerau mewn perthynas â'r gwasanaethau sydd i'w darparu i'r cleifion, gan gynnwys yr amodau a'r telerau ynghylch y swm sydd i'w dalu gan gleifion am bob agwedd ar eu triniaeth a'r dull o dalu'r taliadau;

(c) ffurf safonol o gontract ar gyfer darparu'r gwasanaethau a chyfleusterau gan y darparwr cofrestredig i gleifion;

(ch) crynodeb o'r weithdrefn gwynion a sefydlwyd o dan reoliad 24;

(d) pan fo ar gael, crynodeb o safbwyntiau'r cleifion ac eraill, a gafwyd yn unol â rheoliad 19(2)(d);

(dd) cyfeiriad a rhif teleffon swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru; ac

(e) yr adroddiad arolygu diweddaraf a baratowyd gan yr awdurdod cofrestru neu wybodaeth ynglŷn â sut y gellir cael copi o'r adroddiad hwnnw.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu copi o arweiniad cyntaf y cleifion i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru, a rhaid iddo sicrhau bod copi o'r fersiwn gyfredol o arweiniad y cleifion yn cael ei ddarparu i bob claf ac i unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran claf.